# Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

# Polisi Diogelu Corfforaethol

**Chwefror 2024**

| | |
|---|---|
| Polisi Diogelu Corfforaethol Rhondda Cynon Taf | Dyddiad: Chwefror 2024 |
| Dyddiad Adolygu: Tachwedd 2026 | Statws: Cymeradwywyd gan y Cabinet ar 22 Chwefror 2024 |

| Adran | Cynnwys | Tudalen |
|---|---|---|
| 1 | Cyflwyniad | 3 |
| 2 | Cyd-destun strategol | 4 |
| 3 | Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig | 4 |
| 4 | Ein Fframwaith | 5 |
| | • Arweinyddiaeth a Diwylliant | 6 |
| | • Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad | 6 |
| | • Arfer Proffesiynol a Safonau Gwasanaeth | 7 |
| | • Gweithlu, recriwtio a dethol | 10 |
| 5 | Cyfrinachedd | 11 |
| 6 | Swyddogaethau a Chyfrifoldebau | 11 |
| Atodiad I | Beth i'w wneud os ydych chi'n amau bod rhywun mewn perygl | 13 |
| Atodiad II | Beth yw cam-drin a/neu gamfanteisio | 14 |
| Atodiad III | Polisïau Perthnasol y Cyngor | 21 |
| Atodiad IV | Swyddogaethau a Chyfrifoldebau | 22 |

# 1 Cyflwyniad

1.1. Mae diogelu yn fater i bawb, waeth p'un a ydyn nhw'n gweithio i'r Cyngor neu ar ei ran.

**Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol, rhaid cysylltu â'r Gwasanaethau Brys (Yr Heddlu, Gwasanaeth yr Ambiwlans, Y Gwasanaethau Tân ac Achub) ar unwaith drwy ffonio 999**

1.2 Mae'r Cyngor yn disgwyl i'w holl weithwyr, aelodau etholedig, gwasanaethau a gomisiynir, cyflenwyr, a chontractwyr fod yn effro i'w cyfrifoldebau diogelu, i fod yn effro i blant neu oedolion sydd mewn perygl o niwed ac i weithredu pan fyddan nhw'n amau bod rhywun mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei niweidio. Mae manylion am beth i'w wneud os ydych chi'n amau bod rhywun mewn perygl o niwed wedi'u nodi yn Atodiad I.

1.3 Mae Diogelu Corfforaethol yn disgrifio'r ymrwymiad polisi a'r trefniadau sydd gan y Cyngor yma ar waith i sicrhau bod ein holl wasanaethau a gweithwyr yn chwarae eu rhan mewn diogelu a hyrwyddo llesiant plant ac oedolion a all fod mewn perygl o niwed.

1.4 Arweinydd y Cyngor yw'r aelod etholedig arweiniol a'r deiliad portffolio ar gyfer Diogelu Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer diogelu corfforaethol drwy ei Grŵp Diogelu Corfforaethol, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, sef Hyrwyddwr Diogelu'r Cyngor, a thrwy ei brosesau democrataidd ehangach, gan gynnwys y Pwyllgor Craffu a'r Cabinet.

**Beth yw Diogelu?**

1.5 Mae diogelu yn cynnwys amddiffyn plant ac oedolion sydd angen gofal a chymorth rhag achosion o gam-drin, esgeulustod neu fathau eraill o niwed, ac atal plant ac oedolion rhag wynebu'r risg o gael eu cam-drin, eu hesgeuluso neu eu niweidio mewn ffyrdd eraill.

1.6 Mae'r diffiniadau o blentyn ac oedolyn sy'n wynebu risg a'r mathau o niwed a/neu gamfanteisio wedi'u cynnwys yn Atodiad II.

**Diben y polisi yma**

1.7 Mae diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg yn un o flaenoriaethau Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf.

1.8 Mae'r Polisi Diogelu Corfforaethol yma'n fframwaith ar gyfer pob Gwasanaeth yn y Cyngor. Mae'n amlinellu'r cyfrifoldebau o ran diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg, a dulliau o wirio bod y Cyngor yn bodloni'i ddyletswyddau.

1.9 Mae'r polisi yma'n berthnasol i holl weithwyr, aelodau etholedig a gwirfoddolwyr Rhondda Cynon Taf, yn ogystal â chyflenwyr/darparwyr gwasanaethau sydd wedi'u caffael gan y Cyngor i gyflenwi gwasanaethau ar ei ran.

**Egwyddorion**

1.10 Mae’r polisi yma'n ystyried yr egwyddorion allweddol canlynol:

- Mae gyda phob plentyn ac oedolyn (waeth beth yw eu cefndir, eu diwylliant, eu hoed, eu hanabledd, eu rhywedd, eu cyfeiriadedd rhywiol, eu hunaniaeth rhywedd, eu hethnigrwydd a'u cred grefyddol) yr hawl i fod yn rhan o gymdeithas ddiogel heb drais, ofn, cam-drin, bwlio na gwahaniaethu.
- Mae gyda phob plentyn ac oedolyn yr hawl i gael ei amddiffyn rhag cael ei niweidio, ei esgeuluso, ei gamfanteisio a'i gam-drin.
- Mae'n gyfrifoldeb ar bawb sy'n gweithio i'r Cyngor a'n haelodau etholedig i amddiffyn plant ac oedolion rhag cael eu cam-drin a'u hesgeuluso, a gweithio mewn modd sy'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r hyn sydd orau iddyn nhw.
- Bydd y Cyngor yn buddsoddi mewn gwasanaethau ataliol ac ymyrraeth gynnar ac mae wedi'i ymrwymo i atal sefyllfaoedd rhag codi lle gallai achosion o gam-drin, esgeulustod neu niwed ddigwydd.
- Bydd y Cyngor yn gweithredu mewn ymateb i unrhyw bryderon diogelu a adroddir er mwyn sicrhau bod plant ac oedolion mewn perygl yn ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn.

# 2 Cyd-destun Strategol

2.1 Ar lefel strategol, mae'r dull yma o ddiogelu yn cefnogi'r gwaith o gyflawni amcanion llesiant y Cyngor, fel sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Corfforaethol, sef: Cynllun Corfforaethol y Cyngor

2.2 Mae hefyd yn cefnogi’r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf a Chynllun Strategol Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Cynllun Strategol BDCTM 2023-2026.

2.3 Ar lefel Cymru gyfan, mae cadw pobl yn ddiogel yn cyfrannu at y nodau llesiant sydd wedi'u nodi yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

## 3 Deddfwriaeth, polisïau a chanllawiau cysylltiedig

3.1 Mae deddfwriaeth sy'n rhan o'r amryw Ddeddfau a chanllawiau yn ymgorffori'r hawl i unigolion gael eu hamddiffyn rhag cael eu cam-drin[1]. Y man cychwyn cyfreithiol er mwyn cyflawni'r amcan yma yw dyletswydd gweithwyr proffesiynol i roi gwybod am[2] honiadau o achosion o gam-drin ac esgeulustod. Hefyd, yn ôl y gyfraith, yr Awdurdod Lleol yw'r corff arweiniol sy'n gyfrifol am [3] wneud ymholiadau i nodi a yw unigolyn yn wynebu risg, ac am drefnu a chyflawni'r ymateb i amddiffyn yr unigolyn dan sylw. Yn ymarferol, dydy hyn byth yn cael ei gyflawni mewn gwagle neu heb arweiniad nac atebolrwydd clir[4] am y gwaith sydd hefyd yn rhan o'r gyfraith, ynghyd â'r ddyletswydd i weithio ar y cyd[5] ag eraill.

3.2 Mae arfer da o ran diogelu yn dwyn ynghyd yr holl waith sydd â'r nod o hyrwyddo arfer diogel gyda grwpiau agored i niwed ac atal achosion o gam-drin ac esgeulustod. Mae diogelu yn cael ei lywodraethu gan fframwaith o ddeddfwriaeth; Gweithdrefnau Diogelu Cymru ac fe'i cyflwynir trwy ein polisïau corfforaethol. Mae gan y Cyngor bolisïau penodol sy'n cefnogi ein gweithwyr i gyflawni eu cyfrifoldebau diogelu, gan gynnwys y rhai a gaiff eu rhestru yn Atodiad IV.

3.3 Nod y Polisi Diogelu Corfforaethol yw ategu unrhyw gyfrifoldebau sydd eisoes wedi'u nodi'n rhan o ddeddfwriaeth, polisi neu ganllawiau, nid eu disodli.

## 4 Ein Fframwaith

4.1 Dau brif amcan y polisi yma yw:

a) Nodi sut y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yn cyflawni ei rwymedigaethau o ran diogelu plant ac oedolion.

[1] Deddf Hawliau Dynol 1999 a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a hawliau dynol

[2] Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[3] Deddf Plant 1989 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

[4] Deddf Plant 2004

[5] Deddf Plant 1989, 2004 a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

b) Rhoi sicrwydd i'r cyhoedd, aelodau etholedig, gweithwyr, gwirfoddolwyr a phobl sy'n gwneud gwaith ar ran y Cyngor bod trefniadau cadarn ar waith i ddiogelu plant ac oedolion.

4.2 Bydd y Cyngor yn gweithredu'r amcanion yma drwy'r fframwaith canlynol:




## Arweinyddiaeth a Diwylliant

4.3 Mae diogelu yn fusnes i bawb. Rhaid i holl weithwyr y Cyngor, aelodau etholedig, gwasanaethau a gomisiynir, cyflenwyr, a chontractwyr fod yn effro i'w cyfrifoldebau diogelu, i fod yn effro i blant neu oedolion sydd mewn perygl o niwed ac i weithredu pan fyddan nhw'n amau bod rhywun mewn perygl o gael ei gam-drin neu ei niweidio.

4.4 Arweinydd y Cyngor yw'r aelod etholedig arweiniol a'r deiliad portffolio ar gyfer Diogelu Corfforaethol. Mae'r Cyngor wedi rhoi trefniadau llywodraethu cadarn ar waith ar gyfer diogelu corfforaethol drwy ei Grŵp Diogelu Corfforaethol, a gaiff ei gadeirio gan y Prif Weithredwr, sef Hyrwyddwr Diogelu'r Cyngor.

## Llywodraethu, Craffu a Rheoli Cyflawniad

4.5 Mae Grŵp Diogelu Corfforaethol Rhondda Cynon Taf yn gyfrifol am sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau, fel sydd wedi'u nodi yn y Polisi Diogelu Corfforaethol yma. Mae'r Grŵp yn cael ei gadeirio gan y Prif Weithredwr ac mae ganddo aelodaeth o bob rhan o gyfrifoldebau swyddogaethol craidd y Cyngor.

4.6 Bydd y Cyngor yn cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu statudol strategol drwy ei aelodaeth o Fwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg. Mae gyda'r Bwrdd ddyletswydd statudol i lunio Cynllun Blynyddol Cynllun Strategol BDCTM 2023-2026 ar sail ranbarthol, a chyfrifoldeb cyffredinol dros herio asiantaethau perthnasol mewn perthynas â'r mesurau sydd ar waith i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

4.7 Proses ddemocrataidd y Cyngor ar gyfer herio yw ei swyddogaeth Craffu. Bydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu yn derbyn adroddiad blynyddol yn disgrifio sut mae'r Cyngor wedi cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu corfforaethol. Trwy ei drefniadau rheoli cyflawniad cadarn, bydd modd i'r Cyngor ddangos effaith ei waith a bod yn atebol i aelodau etholedig.

## Arfer Proffesiynol a Safonau Gwasanaeth

4.8 Wrth wneud eu gwaith i'r Cyngor rhaid i bob gweithiwr, aelod etholedig a darparwr gwasanaeth/contractwr gydymffurfio â gofynion ymarfer proffesiynol perthnasol, codau ymddygiad a safonau gwasanaeth lle maen nhw'n berthnasol.

4.9 Mae Gweithdrefnau Diogelu Cymru Diogelu Cymru yn gosod trefniadau ar gyfer ymateb i bryderon diogelu am;

- y rhai y mae eu gwaith, naill ai'n gyflogedig neu'n wirfoddol, yn dod â nhw i gysylltiad â phlant neu oedolion sydd mewn perygl.
- Unigolion sydd â chyfrifoldebau gofalu am blant neu oedolion sydd angen gofal a chymorth sy'n dod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n agored i niwed trwy eu gwaith, boed hwnnw'n waith â thâl neu'n waith gwirfoddol.

4.10 Mae'r gweithdrefnau yma hefyd yn cefnogi gweithdrefnau disgyblu mewnol y Cyngor ac mae'n darparu canllawiau i fynd i'r afael yn briodol ag unrhyw bryderon neu honiadau o gam-drin, esgeulustod neu niwed proffesiynol ac er mwyn sicrhau bod pob honiad o gam-drin sy'n cael ei wneud yn erbyn staff neu wirfoddolwyr sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifainc ac oedolion sy'n agored i niwed yn cael ei drin mewn modd teg, cyson ac amserol.

4.11 Mae plant, pobl ifainc ac oedolion yn byw, yn dysgu, yn gweithio, yn chwarae ac yn ymweld ag ystod eang o leoliadau yn eu cymdogaethau a’u cymunedau. Bydd y Cyngor ynghyd â chyrff cyhoeddus eraill yn ystyried y risgiau y mae modd i amgylcheddau eu cyflwyno i blant, pobl ifainc ac oedolion. Ein staff, gwirfoddolwyr a chontractwyr fydd “llygaid a chlustiau” y Cyngor wrth iddyn nhw fynd ati i gyflawni eu

swyddi. Mae gweithwyr wedi'u harfogi â hyfforddiant diogelu, fel bod gyda nhw ddealltwriaeth sylfaenol dda o beth i'w wneud os ydyn nhw'n arsylwi neu'n pryderu am risg diogelu posibl.

4.12 Mae nifer o ystyriaethau diogelu gwasanaeth-benodol ar draws y Cyngor:

**a) Trwyddedu**

Mae Datganiad Polisi Trwyddedu'r Cyngor 2020-25 Polisi Trwyddedu yn nodi sut y bydd y Cyngor yn cyflawni ei ddyletswyddau o dan Ddeddf Trwyddedu 2003, gan gynnwys ei ddisgwyliadau gan y fasnach drwyddedig o ran diogelu. Bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau gyda golwg ar hyrwyddo pedwar amcan trwyddedu. Dyma'r amcanion:-

- Atal trosedd ac anrhefn,
- Diogelu'r cyhoedd
- Atal niwsans cyhoeddus
- Amddiffyn plant rhag niwed

Mae'r Cyngor yn gweithio gydag ystod eang o fusnesau ac arweinwyr busnes ledled Rhondda Cynon Taf. Mae modd i bobl sy'n gweithio yn y busnesau yma gwrdd â phlant ac oedolion sydd mewn perygl o niwed. Efallai y bydd modd i bobl sy'n gweithio yn y diwydiannau yma nodi arwyddion o gamfanteisio a mathau eraill o gamdriniaeth. Bydd y Cyngor yn annog eiddo trwyddedig a busnesau eraill i ddarparu hyfforddiant diogelu i'w gweithwyr. Mae'n ofynnol i bob gyrrwr tacsi a drwyddedir gan y Cyngor gyflawni tystysgrif SQA lefel 2, "Cyflwyniad i rôl y gyrrwr tacsi proffesiynol a gyrrwr llogi preifat", sy'n cynnwys hyfforddiant diogelu. Mae modd dod o hyd i gyngor ar ddiogelwch i'r fasnach tacsis yma: Cyngor ar ddiogelwch i'r Fasnach Tacsis

**b) Cynllunio**

Wrth gyflawni ei ddyletswydd awdurdod cynllunio, bydd y Cyngor yn llywio ac yn dylanwadu ar leoliad safleoedd trwyddedig newydd, lleoliad adeiladau a dyluniad mannau cyhoeddus i leihau cyfleoedd i bobl gael eu niweidio.

**c) Ysgolion a Lleoliadau Addysg eraill**

Mae lleoliadau addysg yn chwarae rhan allweddol mewn diogelu a bydd gan bob lleoliad Bolisi Diogelu Plant sy’n cael ei ddiweddaru’n flynyddol gan gynrychiolwyr

dirprwyedig ar ran Bwrdd Diogelu Cwm Taf Morgannwg a’i fabwysiadu gan y Corff Llywodraethu/Pwyllgor Rheoli. Mae Adran 175 o Ddeddf Addysg 2002 yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Lleol a Chyrff Llywodraethu ysgolion a gynhelir fod â threfniadau ar waith i ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Rhaid i Gyrff Llywodraethu a staff ysgol ddilyn y canllawiau yma wrth gyflawni eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo lles plant. Mae canllawiau Cadw Dysgwyr yn Ddiogel Llywodraeth Cymru yn manylu ar gyfrifoldebau Awdurdodau Lleol, Cyrff Llywodraethu a pherchnogion ysgolion annibynnol.

Bydd y Cyngor yn cefnogi ysgolion i gyflawni eu dyletswydd diogelu trwy brosesau cydymffurfio gan gynnwys Archwilio Mewnol, yn ogystal â chyngor ac arweiniad trwy swyddogaeth Addysg bwrpasol o fewn Hwb Diogelu Amlasiantaeth a Swyddogion Arweiniol Penodedig Awdurdodau Lleol.

Mae’r Cyngor hefyd yn cefnogi diogelu disgyblion a’u teuluoedd trwy bolisïau a phrosesau ar gyfer:

- Plant sydd ar goll o fyd addysg
- Trwyddedu Cyflawniad Plant, Trwyddedau Cyflogaeth Plant a Gwarchodwyr
- Addysg Heblaw yn yr Ysgol (AHY)

**d) Caffael**

Wrth ymgynghori â'r maes gwasanaeth perthnasol, bydd y Gwasanaeth Caffael yn asesu a fydd gofynion y Polisi Diogelu Corfforaethol yma'n berthnasol i unrhyw drefniant contractio newydd. Yn dibynnu ar natur contractau penodol, gall lefel y gwiriadau cyn-penodi/arferion llywodraethu gofynnol amrywio.

- Ar gyfer y contractau hynny lle mae'r Polisi yma'n berthnasol, bydd gyda'r Cyngor drefniadau rheoli contractau priodol ar waith fel sydd wedi'u nodi yn nhelerau ac amodau'r contract.
- Ar ôl penodi cyflenwr/darparwr gwasanaeth, diben trefniadau monitro contractau fydd sicrhau bod y cyflenwr/darparwr gwasanaeth yn rheoli ei gyfrifoldebau fel sydd wedi'u nodi yn y dogfennau tendro perthnasol a'r contract ymrwymo.

**e) Digidol a TGCh**

Mae'r Cyngor yn deall bod y byd digidol yn darparu pryderon ychwanegol ar gyfer

diogelu ac mae cadw gweithwyr yn ddiogel gan ddefnyddio systemau digidol yn ofyniad allweddol. Mae diogelwch digidol wedi dod yn risg fyd-eang i ddefnyddwyr technoleg. Er mwyn mynd i'r afael â'r risg diogelu yma, mae gan y Cyngor nifer o bolisïau i ddarparu canllawiau priodol i weithwyr. Mae nifer o bolisïau a phrosesau yn cael eu cyhoeddi yn gymorth i ddiogelu gweithwyr a thrigolion.

- Rhaid i bob datrysiad a brynir gan yr awdurdod gynnal Asesiad Diogelwch. Mae'r asesiad yn gwerthuso diogelwch gwybodaeth yn erbyn canllawiau Y Ganolfan Seiberddiogelwch Genedlaethol.
- Mae'r Cyngor yn cyhoeddi polisïau gorfodol i gefnogi diogelu.
- Mae'r Cyngor hefyd yn monitro ac yn cofnodi defnydd i gefnogi diogelu.

**f) Partneriaethau a Hwb Diogelu Amlasiantaeth (MASH)**

Bydd y Cyngor yn gweithio mewn partneriaeth drwy Fwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg a'i drefniadau llywodraethu cysylltiedig er mwyn sicrhau bod mesurau effeithiol ar waith i ddiogelu plant ac oedolion ar draws y rhanbarth, herio partneriaid a darparu atebolrwydd. Mae'r Cyngor yn ymrwymo adnoddau i'r cydweithrediad rhanbarthol yma a'r Hwb Diogelu Amlasiantaethol (MASH), sy'n dod ag asiantaethau gwahanol ynghyd i alluogi rhannu gwybodaeth yn gyflym gyda'r diben o wneud penderfyniad effeithlon a gwybodus i ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.

## Gweithlu, Recriwtio a Dethol

4.13 Bydd y Cyngor yn sicrhau bod yr holl weithwyr ac aelodau etholedig yn deall eu cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu plant ac oedolion. Mae'n ofynnol i bob gweithiwr ddilyn hyfforddiant diogelu gorfodol (plant ac oedolion) yn ogystal â hyfforddiant Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol lefel 1. Rhaid i reolwyr sicrhau bod yr hyfforddiant yma'n rhan o'r broses gynefino i weithwyr newydd.

4.14 Mae'r Cyngor wedi datblygu dogfen Safonau yn seiliedig ar y Safonau Hyfforddiant Diogelu Cenedlaethol a ddatblygwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru, Safonau hyfforddi, dysgu a datblygu diogelu cenedlaethol . Mae hyn yn nodi'r safonau hyfforddi ar gyfer diogelu, sy'n ofynnol gan weithwyr Cyngor Rhondda Cynon Taf a darparwyr dan gontract, sydd ag ystod amrywiol o lefelau cyswllt a chyfrifoldeb am blant a/neu

rieni/gwarcheidwaid, ac oedolion. Bydd y rhain yn cynnwys y rhai sydd â chyswllt cyfyngedig â phlant, pobl ifanc, eu rhieni/gwarcheidwaid ac oedolion sy’n wynebu risg yn eu gwaith neu yn eu gwaith gwirfoddoli, ond nad oes gyda nhw gyfrifoldeb penodol amdanyn nhw, i’r rhai sydd â’r lefelau uchaf o gyfrifoldebau drostyn nhw, gan gynnwys ar lefel strategol.

4.15 Bydd y Cyngor hefyd yn sicrhau bod prosesau recriwtio diogel ar waith i atal, lle bynnag y bo'n bosibl, pobl anaddas rhag gweithio neu wirfoddoli mewn rolau penodol, yn enwedig rolau sy'n cynnwys plant neu oedolion sy'n agored i niwed. Mae hyn yn cynnwys:

- Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd,
- Hyfforddiant recriwtio a dethol ar gyfer rheolwyr,
- Geirdaon gan ganolwyr a gwiriadau cyn cyflogi
- Adolygu gweithdrefnau recriwtio a dethol yn rheolaidd ac archwilio eu heffeithiolrwydd

## 5 Cyfrinachedd

5.1 Mae rhannu gwybodaeth yn hanfodol er mwyn diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gydymffurfio â deddfwriaeth Diogelu Data sy'n ei ganiatáu i ddefnyddio a rhannu gwybodaeth bersonol dim ond lle mae gyda ni reswm priodol a chyfreithlon dros wneud hynny. Dydy'r ddeddfwriaeth Diogelu Data ddim yn rhwystro gwybodaeth rhag cael ei rhannu ond mae'n gwella hawliau unigolion i sicrhau bod eu gwybodaeth bersonol yn cael ei phrosesu'n deg, yn gyfreithlon ac mewn ffordd dryloyw.

5.2 Ac yntau'n fater o arfer da, dylai gweithwyr roi gwybod i'r plentyn, eu rhiant, neu'r oedolyn sy'n wynebu risg am bolisi eu gwasanaeth ynghylch sut y caiff gwybodaeth ei rhannu a gofyn am eu caniatâd.

5.3 Mae modd i chi rannu gwybodaeth gyfrinachol heb ganiatâd os yw'n ofynnol yn ôl y gyfraith, yn ôl cyfarwyddyd gan Lys, neu os yw'r buddion i blentyn neu berson ifanc a fydd yn deillio o rannu'r wybodaeth yn drech na'r buddion i'r cyhoedd a'r unigolyn o gadw'r wybodaeth yn gyfrinachol. Yn ymarferol, pan fo pryderon y gallai plentyn neu oedolyn sy’n wynebu risg fod yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, bydd yn

gyfreithlon i’r wybodaeth honno gael ei rhannu. Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio taflen ffeithiau ar y mater yma. Mae modd dod o hyd iddo yn rhannu gwybodaeth i ddiogelu plant ac oedolion

5.4 Dylai gweithwyr ofyn am gyngor gan eu Rheolwr Llinell neu'r Garfan Rheoli Gwybodaeth os oes gyda nhw unrhyw amheuon am rannu gwybodaeth bersonol.

## 6 Swyddogaethau a Chyfrifoldebau

6.1 Mae'n ddyletswydd ar holl weithwyr, aelodau etholedig, gwirfoddolwyr a chyflenwyr/darparwyr gwasanaethau'r Cyngor (h.y. gwasanaethu sydd wedi'u caffael gan y Cyngor) i roi gwybod am unrhyw bryderon ynghylch achosion o gam-drin neu esgeulustod.

6.2 Mae'r Gwasanaethau i Blant yn gyfrifol am dderbyn pryderon newydd am blant ac ymateb iddyn nhw, ac mae'r Gwasanaethau i Oedolion yn gyfrifol am dderbyn pryderon newydd am oedolion sy'n wynebu risg ac ymateb iddyn nhw. Mae cyfrifoldebau rolau allweddol yn y Cyngor wedi'u nodi yn Atodiad III:

**ATODIAD I - Beth i'w wneud os ydych chi'n amau bod rhywun mewn perygl.**

**Os yw plentyn, person ifanc neu oedolyn mewn perygl uniongyrchol, rhaid cysylltu â'r Gwasanaethau Brys (Yr Heddlu, Gwasanaeth yr Ambiwlans, Y Gwasanaethau Tân ac Achub) ar unwaith drwy ffonio 999.**

Dylai pawb sy'n cael ei gyflogi gan y Cyngor, neu sy'n gweithio ar ei ran, fod yn effro i'r posibilrwydd o achosion o gam-drin. Gall unigolyn godi pryder am blentyn neu oedolyn sy'n wynebu risg mewn sawl ffordd:

- Gallen nhw roi gwybod i chi,
- Gallen nhw ddweud rhywbeth sy'n eich poeni chi,
- Gall trydydd parti leisio eu pryderon,
- Efallai y byddwch chi'n gweld rhywbeth sy'n codi pryder,

Mae cyfrifoldeb ar unrhyw berson sydd â phryderon ynghylch diogelwch plentyn/oedolyn sy'n agored i niwed, **NEU** ymddygiad cydweithiwr tuag at blentyn/oedolyn sy'n agored i niwed, i roi gwybod am hyn ar unwaith.

01443 425003 (oedolion) 01443 425006 (plant)

E-bost:

Oedolionmewnperygl@rctcbc.gov.uk (oedolion)

CarfanGCC@rctcbc.gov.uk (plant)

*Ar ôl 5.00pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener ac ar benwythnosau a gwyliau cyhoeddus ffoniwch y Garfan ar Ddyletswydd ar gyfer Argyfyngau ar 01443 743665 neu e-bostio: CarfanArDdyletswyddGwaithCymdeithasol@rctcbc.gov.uk*

Mae gan bob un ohonom gyfrifoldeb i roi gwybod am bryderon diogelu, waeth beth fo statws, proffesiwn neu awdurdod person. Rhaid rhoi gwybod i'r gwasanaethau cymdeithasol neu'r heddlu am unrhyw bryderon ynghylch ymddygiad ymarferydd/person sydd mewn sefyllfa o ymddiriedaeth.

## ATODIAD II - Beth yw cam-drin a/neu gamfanteisio

### Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014 Rhan 7 - Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl

### Mae Adran 128 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i roi gwybod am oedolion sy'n wynebu risg

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd newydd ar bartneriaid perthnasol i roi gwybod i Awdurdod Lleol os oes amheuaeth bod oedolyn yn oedolyn sy'n wynebu risg.

Mae "oedolyn sy'n wynebu risg", yn oedolyn sydd:

> (a) yn cael ei gam-drin neu ei esgeuluso, neu'n wynebu risg o'r rhain;
>
> (b) angen gofal a chymorth (p'un a yw'r Awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio), ac
>
> (c) oherwydd yr anghenion hynny, yn methu ag amddiffyn ei hun rhag cael ei gam-drin neu'i esgeuluso, neu rhag bod yn agored i niwed

### Mae Adran 130 o'r Ddeddf yn gosod dyletswydd i roi gwybod am blant sy'n wynebu risg

Mae'r Ddeddf yn diffinio 'plentyn sy'n wynebu risg' yn blentyn sydd:

> (a) yn cael ei gam-drin, ei esgeuluso neu'n cael ei niweidio mewn unrhyw ffordd arall (neu'n wynebu risg o'r rhain) ac sydd
>
> (b) ag anghenion gofal a chymorth (p'un a yw'r Awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio).

Mae Adran 197 (1) o'r Ddeddf yn darparu diffiniadau o 'gam-drin' ac 'esgeulustod':

> **ystyr "cam-drin"** yw cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol (ac mae'n cynnwys cam-drin sy'n digwydd mewn unrhyw leoliad, boed hynny mewn annedd breifat, sefydliad neu unrhyw fan arall), ac
>
> **ystyr "esgeulustod"** yw methiant i ddiwallu anghenion corfforol, emosiynol, cymdeithasol neu seicolegol sylfaenol unigolyn, sy'n debygol o arwain at amharu ar les yr unigolyn (e.e. amharu ar iechyd yr unigolyn neu, yn achos plentyn, amharu ar ei ddatblygiad);

Dyma restr o enghreifftiau (sydd ddim yn gynhwysfawr) ar gyfer pob un o'r categorïau o gam-drin ac esgeulustod*:*

- **Cam-drin corfforol** - taro, slapio, gorddefnyddio neu gamddefnyddio meddyginiaeth, gall niwed corfforol hefyd gael ei achosi gan ffugio neu achosi salwch, ataliaeth amhriodol, neu sancsiynau amhriodol. Mae defnyddio cosb gorfforol yn erbyn plant bellach yn anghyfreithlon yng Nghymru. Stopio cosbi corfforol yng Nghymru | LLYW.CYMRU
- **Cam-drin rhywiol** - trais ac ymosodiad rhywiol neu weithredoedd rhywiol nad yw'r

person wedi cydsynio neu wedi methu â chydsynio a/neu wedi dod o dan bwysau i gydsynio;

- **Cam-drin seicolegol/emosiynol** - bygwth niwed neu gefnu, rheolaeth drwy orfodaeth, bychanu, cam-drin geiriol neu hiliol, ynysu neu dynnu'n ôl o wasanaethau neu rwydweithiau cefnogol; ystyr rheolaeth drwy orfodaeth yw gweithred neu batrwm o weithredoedd o ymosod, bygwth, bychanu, neu gam-drin arall sy'n cael eu defnyddio i niweidio, cosbi neu ddychryn y dioddefwr
- **Esgeulustod** - methiant i gael mynediad at ofal neu wasanaethau meddygol, cymryd risgiau diangen, methiant i roi meddyginiaeth, methiant i gynorthwyo gyda materion hylendid personol neu ddarparu bwyd, cysgod, dillad; esgeulustod emosiynol.
- **Cam-drin ariannol** - cam-drin ariannol neu faterol, gan gynnwys dwyn, twyll, camfanteisio, rhoi rhywun o dan bwysau mewn perthynas ag ewyllys, eiddo neu etifeddiaeth a thaliadau ariannol. Yn ogystal â hynny, mae'n cynnwys camddefnyddio eiddo neu fudd-daliadau unigolyn, neu eu hawlio heb ganiatâd. Fel arfer, mae'r math yma o gam-drin dim ond yn berthnasol ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed. Serch hynny, mae modd iddo fod yn berthnasol i blant os bydd rhieni/gwarcheidwad yn defnyddio etifeddiaeth mewn modd sydd ddim yn cyfrannu at ei les.

## Cam-drin plant yn rhywiol

Mae cam-drin plant yn rhywiol yn golygu gorfodi neu hudo plentyn i gymryd rhan mewn gweithredoedd rhywiol, p'un a yw'r plentyn yn effro i'r hyn sy'n digwydd ai peidio. Mae hyn yn cynnwys cyswllt corfforol, gweithredoedd treiddiol ac anhreiddiol; gweithredoedd sydd ddim yn cynnwys cyffwrdd gan gynnwys niwed ar-lein, megis cynnwys plant yn y broses o edrych ar neu greu deunyddiau pornograffig, o wylio gweithredoedd rhywiol neu annog plant i ymddwyn mewn ffyrdd anaddas yn rhywiol.

## Trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (VAWDASV)

Mae Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn diffinio Cam-drin Domestig yn achos o gam-drin lle mae'r dioddefwr yn gysylltiedig â'r sawl sy'n cael ei gam-drin, neu wedi bod yn gysylltiedig â nhw. Mae'r cam-drin yn golygu cam-drin corfforol, rhywiol, seicolegol, emosiynol neu ariannol.

Mae bod yn dyst i achos o gam-drin yn y cartref yn fath o gam-drin plant. Mae'n bwysig deall, os yw plentyn yn wynebu risg, rhaid cymryd camau.

Mae Trais yn erbyn Menywod yn disgrifio mathau o gam-drin a gweithredoedd treisgar sy'n cael eu profi'n bennaf neu'n gyfan gwbl gan fenywod (caiff hyn ei galw'n yn drais ar sail rhywedd hefyd).

Trais Rhywiol yw unrhyw weithred neu weithgaredd rhywiol diangen, megis camfanteisio'n rhywiol, aflonyddu rhywiol, neu fygythiadau o drais o natur rywiol.

## Hunanladdiad a Hunan-niweidio

Does dim diffiniad cyffredinol o hunan-niweidio ac mae gwahanol strategaethau, polisïau a gwaith ymchwil yn defnyddio diffiniadau gwahanol. Diffiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru yw "hunan-wenwyno neu hunan-niweidio bwriadol waeth beth fo natur y cymhelliad neu'r graddau o fwriad i gyflawni hunanladdiad".

Ymddygiad hunan-niweidio, waeth beth fo'r bwriad, yw un o'r pum prif reswm dros dderbyn unigolion i'r ysbyty yn y DU. Mae'n fwy cyffredin ymysg menywod ac mae'r risg o ail-niweidio yn uchel. Bydd hyd at 40% yn gwneud hyn (Strategaeth i Gymru 'Siarad â Fi 2', 2015-2020).

Mae Strategaeth Siarad â Fi 2 yn diffinio hunanladdiad fel "marwolaeth sy'n deillio o weithred a gafodd ei chyflawni gan yr unigolyn yn fwriadol".

Mae hunanladdiad yn un o brif achosion marwolaethau ymhlith y grŵp oedran 15 i 44 yng Nghymru. Yn 2010-2012, roedd yn cyfrif am bron i un o bob pum marwolaeth (Strategaeth i Gymru 'Siarad â Fi 2', 2015-2020).

## Mathau o Gamfanteisio

Mae diffiniadau o'r gwahanol fathau o gamfanteisio (dyw'r rhestr ddim yn hollgynhwysfawr) isod. Gweler Gweithdrefnau Diogelu Cymru am ragor o wybodaeth fanwl a chanllawiau ymarfer perthnasol am ragor o wybodaeth. Diogelu Cymru

• **Meithrin perthynas amhriodol ar-lein**: Term a gaiff ei ddefnyddio yn fras yw meithrin perthynas amhriodol ar-lein i ddisgrifio'r tactegau cam-drin a ddefnyddir drwy'r rhyngrwyd i gamfanteisio ar blant. Gall ddigwydd yn gyflym neu dros amser, ond yn ei hanfod mae'n broses o ecsbloetio ymddiriedaeth i newid disgwyliadau o beth yw ymddygiad diogel a throsoli ofn a chywilydd i gadw plentyn yn dawel. Mae'n realiti anodd ond pwysig i'w wynebu fel bod modd i ni gymryd camau i'w atal.

Ni wnaeth technoleg greu meithrin perthynas amhriodol —mae'r broses wedi bodoli mewn cam-drin all-lein— ond mae'r amrywiaeth o lwyfannau sy'n bodoli, ac amlygrwydd amgylcheddau digidol yn ein bywydau, wedi cynyddu cyrhaeddiad a chyfleoedd camdrinwyr.

Bydd oedolion sy'n ceisio cam-drin plant yn mynd lle mae plant. O ganlyniad, yn ddamcaniaethol gall meithrin perthynas amhriodol ddigwydd bron unrhyw le ar-lein.

Mae modd i'r rheiny sy'n meithrin perthynas amhriodol ar-lein gyrraedd plant mewn sgyrsiau gêm fideo, gan greu personas ffuglen o bosibl i ddatblygu ymdeimlad o berthynas â dioddefwyr neu bortreadu eu hunain fel oedolyn dibynadwy mewn man lle mae oedolion eraill yn absennol i raddau helaeth.

Gyda phoblogrwydd ffrydio byw ar draws llwyfannau ar-lein, gall rhyngweithio ddechrau fel rhywbeth sy'n teimlo'n ddiniwed i'r plentyn, megis annog symudiadau dawns penodol i'r gân ddiweddaraf neu ddathlu trefniant gymnasteg newydd. Serch hynny, gall y math yma o weithredu droi'n rhywbeth mwy pryderus yn gyflym pan fydd eiliad ddiniwed yn cael ei dal a'i rhannu mewn mannau eraill ar-lein neu pan fydd y rhyngweithio'n parhau dros gyfnod o amser, gyda ffiniau'n cael eu gwthio ar hyd y ffordd.

Efallai mai dyma pam y gall meithrin perthynas amhriodol ar-lein hefyd fod yn un o'r materion mwyaf heriol i'w ddeall - mae mor amrywiol, ac weithiau mae'n teimlo y gall ddigwydd yn unrhyw le bod plant yn rhyngweithio â'r byd ar-lein.

- **Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant:** Mae hwn yn fath o gam-drin rhywiol. Mae'n digwydd pan fo unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, trin neu dwyllo plentyn neu berson ifanc o dan 18 oed, neu oedolyn ag anghenion gofal a chymorth, i weithgaredd rhywiol (a) yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu'n ei ddymuno, a/neu (b) er budd ariannol neu statws uwch y cyflawnwr neu'r hwylusydd. Efallai bod y dioddefwr wedi cael ei gamfanteisio'n rhywiol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd rhywiol yn ymddangos yn gydsyniol. Dyw camfanteisio rhywiol ddim yn cynnwys cyswllt corfforol bob amser; gall hefyd ddigwydd trwy ddefnyddio technoleg.

- **Pobl ar goll:** Diffiniad o 'ar goll':
- "Bydd unrhyw un na ellir sefydlu ei leoliad yn cael ei ystyried ar goll hyd nes y caiff ei ganfod a'u llesiant wedi'i gadarnhau." (Coleg Heddlu, APP)
- Mae nifer o risgiau uniongyrchol yn gysylltiedig â mynd ar goll, a allai gynnwys:
- Cymryd rhan mewn gweithgareddau troseddol;
- Dioddefwr cam-drin;
- Dioddefwr trosedd, er enghraifft trwy ymosodiad rhywiol a chamdriniaeth;
- Camddefnyddio alcohol/sylweddau;
- Dirywiad mewn iechyd corfforol a meddyliol;
- Colli allan ar addysg;
- Camfanteisio rhywiol ac ariannol o ganlyniad i fasnachu pobl.

Heddlu De Cymru yw'r asiantaeth arweiniol sy'n gyfrifol am yr asesiad risg cychwynnol a rheoli ymholiadau pobl ar goll a'r ymchwiliad dilynol i ddod o hyd i'r person. Mae Ymarfer Proffesiynol Awdurdodedig y Coleg Heddlu (APP) yn gosod pawb sydd ar goll o fewn continwwm risg sy'n amrywio o 'ddim risg ymddangosiadol' (y cyfeiriwyd ato'n flaenorol fel 'absennol'), i achosion 'risg uchel' sy'n gofyn am weithredu cydweithredol dwys ar unwaith. Mae'r asesiad risg ar gyfer pobl ar goll yn ganllaw i'r lefel briodol o ymateb yn seiliedig ar asesiad risg cychwynnol a pharhaus mewn achos. Mae mynd ati i adolygu lefelau risg yn barhaus yn parhau i fod yn bwysig i bob asiantaeth dan sylw er mwyn eu galluogi i asesu amgylchiadau newidiol ac ymateb yn unol â hynny. Er y mae modd ystyried oedolion fel 'dim risg amlwg' dyw Heddlu De Cymru a phartneriaid ddim yn ystyried bod plentyn yn 'Dim risg ymddangosiadol/amlwg' neu'n 'risg isel'. O ystyried eu hoedran a'r bregusrwydd cysylltiedig, byddan nhw'n cael eu dosbarthu naill ai fel 'Canolig' neu 'Uchel'.

• **Trais Ieuenctid Difrifol:** Mae sawl diffiniad sy'n disgrifio 'Trais Ieuenctid Difrifol' ond yr un elfen sydd gyda nhw i gyd yn gyffredin yw eu bod i gyd yn canolbwyntio ar **oed** y person a fu'n gysylltiedig â'r digwyddiad a **difrifoldeb** y drosedd:

Caiff Trais Ieuenctid Difrifol ei ddiffinio fel *'unrhyw drosedd trais mwyaf difrifol neu drosedd a alluogir gan arfau, lle mae'r dioddefwr rhwng 1-19 oed'* h.y. llofruddiaeth, dynladdiad, treisio, clwyfo'n fwriadol ac achosi niwed corfforol difrifol. Mae 'trais ieuenctid' yn cael ei ddiffinio yn yr un modd, ond mae hefyd yn cynnwys ymosodiadau gydag anafiadau.

Mae pobl ifainc sy'n gysylltiedig â gangiau yn agored iawn i niwed. Mae trais rhywiol ymhlith cyfoedion yn gyffredin a chaiff ei ddefnyddio fel modd o rym a rheolaeth dros eraill, merched ifainc gan amlaf. Mae pobl ifainc sy'n cael eu heffeithio gan gangiau neu sy'n gysylltiedig â gangiau mewn perygl mawr o gamfanteisio rhywiol a thrais, ac

felly bydd angen eu diogelu. Mae camfanteisio rhywiol yn cael ei ddefnyddio mewn gangiau i roi pŵer a rheolaeth dros aelodau / annog pobl ifainc i ymuno â'r gang / cyfnewid gweithgaredd rhywiol am statws neu amddiffyniad / rhwydo aelodau gang cystadleuol trwy gamfanteisio ar ferched a menywod ifainc a pheri ymosodiad rhywiol fel arf mewn gwrthdaro.

Caiff gang ei ddiffinio fel 'grŵp cymharol wydn o bobl ifainc, ar y stryd yn bennaf, sy'n: 1. gweld eu hunain (ac yn cael eu gweld gan eraill) fel grŵp canfyddadwy; 2. cymryd rhan mewn gweithgarwch troseddol a thrais; 3. hawlio tiriogaeth (nid o reidrwydd yn ddaearyddol ond gall gynnwys tiriogaeth economi anghyfreithlon); 4. â rhyw fath o nodwedd strwythurol adnabyddadwy; ac 5. yn gwrthdaro â gangiau eraill, tebyg.

- **Camfanteisio Troseddol**: Mae camfanteisio troseddol yn digwydd pan fydd unigolyn neu grŵp yn manteisio ar anghydbwysedd pŵer i orfodi, rheoli, trin neu dwyllo plentyn, person ifanc neu oedolyn i unrhyw weithgaredd troseddol: (a) Yn gyfnewid am rywbeth y mae'r dioddefwr ei angen neu ei eisiau, a/neu (b) Er mantais ariannol neu fantais arall i'r cyflawnwr neu'r hwylusydd (megis i gefnogi troseddau trefniadol difrifol a/neu derfysgaeth), a/neu (c) Trwy drais neu fygythiad o drais i sicrhau cydymffurfiaeth. Mae'n bosibl bod y dioddefwr wedi cael ei gam-drin yn droseddol hyd yn oed os yw'r gweithgaredd yn ymddangos yn gydsyniol. Dyw camfanteisio troseddol ddim bob amser yn cynnwys cyswllt corfforol; gall hefyd ddigwydd gan ddefnyddio technoleg a/neu'r cyfryngau cymdeithasol. Oherwydd eu bod yn fwy tebygol o gael eu canfod yn hawdd, mae unigolion sy'n cael eu hecsbloetio yn fwy tebygol o gael eu harestio a'u troseddoli am ymddygiad troseddol, na'r unigolion neu'r grwpiau hynny sy'n camfanteisio arnyn nhw. Gall unigolion sy'n cael eu camfanteisio'n droseddol gael eu cynnwys, eu cysylltu â neu eu hystyried i fod (ynddyn nhw eu hunain neu gan eraill) yn rhan o "gang". Mae'n bwysig pan fydd plant neu oedolion yn nodi neu'n cael eu nodi fel rhai yr effeithir arnyn nhw neu'n ymwneud â gweithgaredd cysylltiedig â gangiau sy'n cynnwys defnyddio trais a/neu werthu cyffuriau gwirioneddol neu dan fygythiad, bod gweithwyr proffesiynol hefyd yn ystyried y gallen nhw fod yn ddioddefwyr camfanteisio troseddol. Mae camfanteisio troseddol yn ehangach na throseddau trefniadol a llinellau cyffuriau, ond yn aml yn rhan ohonynt.

- **Troseddau Cyfundrefnol a Llinellau Cyffuriau:** Mae troseddau cyfundrefnol yn "drosedd difrifol wedi'i gynllunio, ei gydlynu a'i gynnal gan bobl sy'n gweithio gyda'i gilydd yn barhaus. Eu cymhelliad yn aml, ond nid bob amser, yw budd ariannol." Mae grwpiau troseddau cyfundrefnol yn "droseddwyr cyfundrefnol yn gweithio gyda'i gilydd ar gyfer gweithgaredd neu weithgareddau troseddol penodol." Mae "llinellau cyffuriau" yn derm a gaiff ei ddefnyddio i ddisgrifio gangiau a rhwydweithiau troseddol pwrpasol sy'n ymwneud ag allforio cyffuriau anghyfreithlon i un ardal fewnforio neu ragor yn y DU, gan ddefnyddio llinellau ffôn symudol pwrpasol neu fath arall o "linell" i werthu a phrynu cyffuriau. Maen nhw'n debygol o ecsbloetio plant ac oedolion i symud, [cyflenwi'n lleol] a storio'r cyffuriau a'r arian. Byddan nhw'n aml yn defnyddio gorfodaeth, brawychu, trais (gan gynnwys trais rhywiol) ac arfau.

- **Cogio (Cuckooing):** Mae'r term yma wedi'i "enwi ar ôl arferion dwyn nyth y gog. Mae'n disgrifio'r sefyllfa lle mae deliwr llinellau cyffuriau yn 'cymryd drosodd' llety sydd wedi'i leoli yn y farchnad gyffuriau daleithiol, gan ei ddefnyddio fel canolfan fasnachu leol." (Coomber a Moyle: 2017) Gall unigolyn neu grŵp wneud hyn drwy gymryd

drosodd cartrefi oedolion a theuluoedd lleol trwy gamddefnyddio pŵer neu fregusrwydd trwy orfodaeth, rheolaeth a/neu rym fel y gallan nhw ddarparu sylfaen ar gyfer cyflenwi cyffuriau i'r gymuned leol. Mae hyn yn rhoi'r oedolyn a/neu deuluoedd mewn mwy o berygl o gael eu troi allan (os ydyn nhw mewn tai cymdeithasol neu dai rhent preifat) ac ynysu oddi wrth eu cymunedau oherwydd y gweithgaredd gwrthgymdeithasol y gall ei greu. Mae cogio yn aml yn rhan o weithgarwch 'llinellau cyffuriau' ehangach ac mae hefyd yn fath o camfanteisio troseddol.

- **Caethwasiaeth Fodern**: Caethwasiaeth fodern yw camfanteisio anghyfreithlon ar bobl er budd personol neu fasnachol. Mae'r camfanteisio yma'n ymdrin ag ystod eang o gam-drin a chamfanteisio gan gynnwys camfanteisio rhywiol, caethwasanaeth domestig, llafur gorfodol, camfanteisio troseddol a chynaeafu organau. Mae modd i ddioddefwyr caethwasiaeth fodern fod o unrhyw oedran, rhyw, cenedligrwydd ac ethnigrwydd. Cânt eu twyllo neu eu bygwth i mewn i waith a gallan nhw deimlo na allan nhw adael neu adrodd y drosedd oherwydd ofn neu fygythiad. Efallai na fyddan nhw'n cydnabod eu hunain fel dioddefwr.

- **Masnachu Pobl**: Mae Erthygl 3 o Brotocol Palermo (2000) yn diffinio masnachu pobl fel a ganlyn: "Mae masnachu pobl yn golygu denu, cludo, trosglwyddo, llochesu neu dderbyn unigolion trwy ddulliau bygwth neu ddefnyddio grym neu fathau eraill o orfodaeth, herwgydio, twyll, dichell, camddefnyddio pŵer neu sefyllfa o natur fregus, neu roi/dderbyn taliadau neu fuddion i sicrhau cydsyniad er mwyn i rywun gael rheolaeth dros rywun arall, i ddibenion camfanteisio. Mae camfanteisio yn cynnwys, o leiaf, gamfanteisio ar buteinio eraill neu fathau eraill o gamfanteisio rhywiol, gorfodi gwaith llafur neu wasanaethau, caethwasiaeth neu arferion sy'n debyg i gaethwasiaeth, caethwasanaeth neu dynnu organau.

**Arferion niweidiol yn ymwneud â thraddodiad, diwylliant, crefydd, neu ofergoeliaeth**

- **Cam-drin yn seiliedig ar 'anrhydedd '**: Mae'r cysyniad o 'anrhydedd' yn gred ddofn o fewn llawer o deuluoedd a chymunedau a gall y rhai y canfyddir eu bod yn amharchu eu teulu neu eu cymuned oherwydd eu hymddygiad fod yn destun camdriniaeth, cam-drin emosiynol a marwolaeth. Mae trosedd 'anrhydedd' yn ymwneud â cham-drin a/neu drais, gan gynnwys llofruddiaeth, a gyflawnir gan bobl sydd am amddiffyn enw da eu teulu neu gymuned. Gall hefyd fod ar ffurf brawychu, rheolaeth orfodol neu flacmel. Lladd er anrhydedd yw llofruddiaeth person sydd wedi'i gyhuddo o "ddod â chywilydd" ar ei deulu.

- **Priodas dan orfod:** Mae priodas dan orfod yn arfer diwylliannol annerbyniol; mae'n fath o gam-drin plant ac yn fath o drais yn erbyn menywod a merched. Mae priodas dan orfod yn anghyfreithlon yn y DU. At ddiben y gyfraith droseddol yng Nghymru a Lloegr, mae priodas dan orfod yn un sy'n digwydd heb gydsyniad llawn a rhydd yr un neu'r ddau sy'n priodi. Mae modd i briodas dan orfod gynnwys gwrywod a benywod.

- **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod (FGM):** Mae Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod hefyd yn cael ei adnabod fel Enwaedu Benywod neu Doriad Organau Rhywiol Merched (FGC) ac mae'n arfer diwylliannol traddodiadol. Mae'r driniaeth yn achosi canlyniadau iechyd tymor byr a thymor hir difrifol, gan gynnwys anawsterau

wrth eni, achosi perygl i'r fam a'r plentyn a phroblemau iechyd meddwl. Does dim unrhyw fanteision iechyd yn gysylltiedig ag Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod, ac mae'n achosi niwed sylweddol. Mae'n golygu cael gwared ar feinwe organau cenhedlu iach a normal a'i niweidio ac mae'n ymyrryd â swyddogaethau naturiol cyrff merched a menywod. Yn gyffredinol, mae'r risgiau iechyd yn cynyddu gyda difrifoldeb cynyddol y driniaeth, er y gall yr effeithiau seicolegol fod yn debyg p'un a yw'r driniaeth yn gorfforol ddifrifol ai peidio.

**Atal/Eithafiaeth**: Caiff 'eithafiaeth' ei ddiffinio yn Strategaeth Atal 2011 fel gwrthwynebiad llafar neu weithredol i werthoedd sylfaenol Prydain, gan gynnwys democratiaeth, y gyfraith, rhyddid unigol a pharch a goddefgarwch tuag at grefyddau a chredoau eraill. Yn ogystal â hynny, mae ein diffiniad o eithafiaeth yn cynnwys galw am ladd aelodau o'n lluoedd arfog, boed hynny yn y DU neu dramor. Diffinnir ‘Eithafiaeth Dreisgar’ gan Wasanaeth Erlyn y Goron (CPS) fel:
"The demonstration of unacceptable behaviour by using any means or medium to express views which:

- “Encourage, justify or glorify terrorist violence in furtherance of particular beliefs;
- Seek to provoke others to terrorist acts;
- Encourage other serious criminal activity or seek to provoke others to serious
- criminal acts:
- Foster hatred which might lead to inter-community violence in the UK.”

Mae nifer o droseddau y mae modd eu hystyried wrth ddelio ag eithafiaeth dreisgar. Maen nhw'n cynnwys troseddau sy'n codi trwy eiriau llafar, creu tapiau a fideos o areithiau, cofnodion rhyngrwyd, côr-ganu, baneri a nodiadau ysgrifenedig a chyhoeddiadau. Y prif droseddau a ddefnyddiwyd hyd yma yw cymell llofruddiaeth ac annog casineb hiliol.

Ystyr 'radicaleiddio' yw'r broses pan mae unigolyn yn dod i gefnogi terfysgaeth a syniadau eithafol sy'n gysylltiedig â grwpiau terfysgol. Proses ac nid digwyddiad yw radicaleiddio fel arfer.

**ATODIAD III – Polisïau Perthnasol y Cyngor**

- Polisi Chwythu'r Chwiban,
- Polisïau Recriwtio a Dethol,
- Canllawiau ar gyfer Ymdrin â Cham-drin Domestig a Thrais Rhywiol,
- Polisïau a Gweithdrefnau'r Bwrdd Diogelu Rhanbarthol ar gyfer diogelu plant, pobl ifainc ac oedolion sy'n wynebu risg,
- Polisi Diogelu Ysgolion Cwm Taf Morgannwg,
- Polisi Cyfryngau Cymdeithasol,
- Polisi Diogelu Gwybodaeth
- Polisi Diogelu Data
- Adrodd am Ddigwyddiadau a Diogelwch
- Polisi Defnydd Derbyniol o'r Rhyngrwyd ac E-bost
- Defnydd derbyniol o Teams Office 365 v1.2
- Protocol Achlysuron Byw Teams Office 365
- Safon Rheoli Cyfrineiriau

**ATODIAD IV - Swyddogaethau a Chyfrifoldebau**

| SWYDDOGAETH YN Y CYNGOR | GARFAN IECHYD A DIOGELWCH |
|---|---|
| **Aelod Arweiniol ar gyfer materion Diogelu Corfforaethol - Arweinydd y Cyngor** | Bydd yr Aelod Arweiniol yn gweithio'n agos gydag ystod o Uwch Swyddogion yr Awdurdod, a derbyn cyngor ganddyn nhw, fel y bo'n briodol.<br><br>Bydd yr Aelod Arweiniol yn cysylltu ag aelodau eraill y Cabinet ac ymgynghori â nhw ar faterion unigol sy'n debygol o effeithio ar eu portffolios fel sydd wedi'u nodi yng Nghynllun Dirprwyo'r Cyngor. |
| **Prif Weithredwr** | Gweithredu'n 'Hyrwyddwr' ar gyfer materion Diogelu Corfforaethol.<br><br>Sicrhau bod trefniadau diogelu effeithiol ar waith, gan gynnwys polisïau a gweithdrefnau, bod y polisïau a'r gweithdrefnau hynny'n cael eu gweithredu, bod trefniadau llywodraethu effeithiol ar waith a bod yr holl ofynion statudol yn cael eu bodloni.<br><br>Gweithio gyda Chyfarwyddwr Statudol Gwasanaethau Cymdeithasol y Cyngor i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg ledled y Cyngor. Yn benodol i:<br><br>• monitro'r broses o weithredu'r polisi yma ledled y Cyngor, a bod y Cyngor yn cydymffurfio ag ef<br>• sicrhau bod rhaglen hyfforddiant Diogelu Corfforaethol ar waith<br>• pennu hierarchiaeth glir o ran atebolrwydd,<br>• sicrhau bod rheolwyr Diogelu arweiniol ym mhob maes gwasanaeth<br>• sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.<br>• sicrhau bod Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth yn cael eu paratoi<br>• sicrhau bod yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu yn cael ei gyflwyno |
| **Cyfarwyddwr Statudol y Gwasanaethau** | Mae'r rôl yma, yn ôl diffiniad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant 2014, wedi'i chyflawni gan Gyfarwyddwr Cyfadran y Gwasanaethau Cymuned a |

<table>
<tr><td>Cymdeithasol</td><td>Gwasanaethau i Blant. Gyda'r unigolyn yma y mae'r atebolrwydd terfynol llawn o ran diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Bydd Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth yn gyfle i herio a byddan nhw'n cael eu defnyddio i lywio 'Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol'.<br><br>Gweithio gyda Phrif Weithredwr y Cyngor i sicrhau bod trefniadau effeithiol ar waith i ddiogelu ac amddiffyn plant ac oedolion sy'n wynebu risg ledled y Cyngor. Yn benodol i:<ul><li>monitro'r broses o weithredu'r polisi yma ledled y Cyngor, a bod y Cyngor yn cydymffurfio ag ef</li><li>sicrhau bod rhaglen hyfforddiant Diogelu Corfforaethol ar waith</li><li>pennu hierarchiaeth glir o ran atebolrwydd</li><li>sicrhau bod rheolwyr Diogelu arweiniol ym mhob maes gwasanaeth</li><li>sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.</li><li>sicrhau bod Adroddiadau Blynyddol y Gwasanaeth yn cael eu paratoi</li><li>sicrhau bod yr Adroddiad Diogelu Corfforaethol Blynyddol ar gyfer y Pwyllgor Craffu yn cael ei gyflwyno</li></ul></td></tr>
<tr><td>Cyfarwyddwyr, Cyfarwyddwyr Gwasanaethau, a Phenaethiaid Gwasanaethau</td><td>Drwy eu carfanau rheoli, byddan nhw'n gyfrifol am sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r holl ofynion statudol o ran diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg.<br><br>Maen nhw hefyd yn gyfrifol am roi systemau priodol ar waith yn eu meysydd gwasanaeth sy'n sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi yma:<ul><li>Sicrhau bod hyfforddiant priodol yn cael ei ddarparu.</li><li>Cyfleu gwybodaeth ynglŷn â phwy y mae angen i weithiwr gysylltu â nhw a sicrhau bod yr wybodaeth yma'n cael ei hadolygu'n rheolaidd fel ei bod yn gyfredol ac yn gywir.</li><li>Paratoi adroddiad ar eu trefniadau Diogelu, a fydd yn cael ei ddefnyddio i lywio Adroddiad Blynyddol Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol.</li></ul></td></tr>
<tr><td>Rheolwyr</td><td><ul><li>Recriwtio gweithwyr/gwirfoddolwyr yn unol â pholisi Adnoddau Dynol perthnasol, gan gynnwys gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (lle bo angen).</li><li>Sicrhau bod materion diogelu yn rhan o hyfforddiant cynefino pob gweithiwr/gwirfoddolwr.</li></ul></td></tr>
</table>

| | |
|---|---|
| | • Nodi gweithwyr/gwirfoddolwyr sy'n debygol o ddod i gysylltiad â phlant neu oedolion sy'n wynebu risg yn rhan o'u rôl.<br>• Sicrhau bod hyfforddiant sy'n gymesur â'r rôl yn cael ei ddarparu.<br>• Sicrhau bod pob gweithiwr/gwirfoddolwr yn effro i sut i roi gwybod am bryderon diogelu ac i bwy<br>• Rhoi cyngor i weithwyr/gwirfoddolwyr ar sut i roi gwybod am bryder diogelu<br>• Sicrhau bod pob gweithiwr/gwirfoddolwr yn effro i bolisi Chwythu'r Chwiban y Cyngor<br>• Sicrhau bod gweithwyr/gwirfoddolwyr yn gwybod bod rhaid iddyn nhw ymddwyn mewn ffordd sy'n diogelu ac yn hyrwyddo lles plant ac oedolion sy'n wynebu risg.<br>• Rhoi canllawiau i weithwyr/gwirfoddolwyr ynghylch rhoi gwybod am bryderon diogelu yn ôl y gofyn. |
| **Comisiynwyr Gwasanaethau** | Sicrhau bod trefniadau cytundebol yn nodi cyfrifoldebau mewn perthynas â diogelu yn unol â'r polisi yma a pholisïau comisiynu sy'n bodoli eisoes. |
| **Contractwyr, isgontractwyr neu sefydliadau eraill sy'n cael eu hariannu gan y Cyngor, neu ar ei ran** | Trefnu gwiriadau drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (lle bo angen) a sicrhau bod eu gweithiwr yn cydymffurfio â threfniadau rheoleiddio a chontractio sy'n ymwneud â diogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg. Mae contractwyr hefyd yn gyfrifol am roi gwybod i reolwyr perthnasol y Cyngor am unrhyw bryderon sydd gyda nhw ac am gyfeirio pryderon diogelu o'r fath i'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth. |
| **Aelodau Etholedig** | Dylen nhw dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg ac anghenion hyfforddiant diogelu ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'u portffolios. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn rhan o'u Hadolygiadau Datblygiad Personol parhaus.<br><br>Dylen nhw roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu yn unol â'r polisi yma. |
| **Gweithwyr** | Dylen nhw dderbyn hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion sy'n wynebu risg ac anghenion hyfforddiant diogelu ychwanegol, e.e. mewn perthynas â'u portffolios. Byddwn yn mynd i'r afael â hyn yn rhan o'u Hadolygiadau Datblygiad Personol parhaus.<br><br>Dylen nhw roi gwybod am unrhyw bryderon diogelu yn unol â'r polisi yma. |